Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

☎ 08442 64 06 70
08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

David Rees AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

30 Mawrth 2016

Annwyl Gadeirydd,

**YNGHYLCH: Gofal Preswyl ar gyfer pobl hŷn**

Yn dilyn fy sesiwn tystiolaeth ym mis Ionawr, dywedais y byddwn yn cyflwyno i chi fanylion am y gwaith sy'n mynd rhagddo er mwyn bodloni'r argymhellion a wnaed yn fy Adolygiad. Mae'r ddogfen hon, sy'n cynnwys llawer iawn o fanylion am y gwaith sy'n mynd rhagddo, yn gymhleth, felly mae wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl i'w chwblhau. Ond dylai'r fersiwn derfynol fod ar gael cyn bo hir. Felly, byddaf yn rhannu'r ddogfen hon gyda'r Pwyllgor holynu ar ôl yr etholiad.

Wrth i mi ddatblygu'r gwaith hwn, rwy'n parhau i fonitro gwaith y Grŵp Llywio Cartrefi Gofal. Dyma'r prif ddull y mae nifer o'm hargymhellion yn cael eu gweithredu. Rwyf wedi datgan yn glir fy nisgwyliadau bod rhaid i bob adran berthnasol yn Llywodraeth Cymru roi sylw i fy Ngofynion Gweithredu ac rwyf wedi cael sicrwydd bod camau ar y gweill. Rwy'n hefyd yn cynnal cyfarfodydd â phrif arweinwyr polisi ac yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, llywodraeth Cymru.

Hefyd, rwy'n gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i hyrwyddo arferion da ledled Cymru. Rwyf hefyd yn dechrau llunio ffocws fy adolygiad dilynol, ac rwy'n croesawu cynnal trafodaethau â Chadeirydd newydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn i ni barhau i graffu ar y maes pwysig hwn ar y cyd.


Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod / The Corporate Standard
Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Hoffwn ddiolch yn ffurfiol i aelodau'r Pwyllgor am eu diddordeb parhaus ac am graffu'r maes gwaith hwn, yn arbennig eu hadroddiad dilynol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror a oedd yn adlewyrchu nifer o bryderon a godais.   Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r Pwyllgor a'i aelodau yn y dyfodol yn ein rolau craffu perthnasol.

Yn gywir,

**Sarah Rochira**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**